

Fersiwn	7
Dyddiad adolygu diwethaf	Tachwedd 2017



HS 1

Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, gweler HS1 General Health and Safety Policy



RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	01443 425536
Dyddiad cychwynnol cyflwyno'r polisi	Mai 1996
Swyddog Adolygu	Mike Murphy
Dyddiad Adolygu	Tachwedd 2019
Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	2008
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Mai 1996	Gerwyn Hogben
Mawrth 2009	Gerwyn Hogben
Chwefror 2010	Mike Murphy
Ebrill 2011	Mike Murphy
Mai 2014	Mike Murphy
Gorffennaf 2016	Mike Murphy
Tachwedd 2017	Mike Murphy
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Garfan Rheoli Adnoddau Dynol	Ebrill 1996
Carfan Rheoli Corfforaethol	Ebrill 1996
Cabinet	Mai 1996

CYNNWYS

	Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol	1
1.	Nod y Polisi	1
2.	Rhan A – Datganiad Polisi (Datganiad o Fwriad)	1
3.	Rhan B – Y Sefydliad (Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch).....	3
	Prif Weithredwr	3
	Cyfarwyddwyr Cyfadrannau	3
	Cyfarwyddwyr/Cyfarwyddwyr Gwasanaeth	4
	Penaethiaid Gwasanaethau	4
	Rheolwyr Llinell/Goruchwylwyr.....	5
	Staff.....	5
4.	Rhan C – Trefniadau (Systemau a Gweithdrefnau)	6
	Cyngor a Chymorth Iechyd a Diogelwch	6
	Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch.....	6
	Systemau Diogel o Weithio	6
	Asesiad Risg	7
	Archwiliadau Statudol.....	7
	Cyfarpar Diogelu Personol (CDP)	7
	Digwyddiadau/Damweiniau	7
	Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (RSPI).....	8
	Cyfarpar	8
	Cadw Deunyddiau	8
	Gwaith Maes Peirianeg Sifil a Maes Adeiladu.....	8
	Gwybodaeth, Cyfarwyddiadau, Hyfforddiant a Goruchwyliaeth.....	9
	Asbestos	9
	Gweithio mewn Lleoliadau Cyfyngedig.....	9
	Iechyd Galwedigaethol.....	9
	Gweithio ar Uchder.....	9
	Gweithio ar Briffordd neu ar eu pwys	10
	Rheoli Sŵn	10
	Cymorth Cyntaf	10
	Diogelu Peiriannau	10

Codi a Chario	10
Mamau Newydd a Menywod sy'n Feichiog	10
Trwyddedau i Weithio.....	11
Rheolaeth Amgylcheddol	11
Tân	11
Cyfarpar Sgrin Arddangos (CSA)	11
Diogelwch gyda Thrydan.....	11
Contractwyr ac Is-contractwyr	11
Straen yn y Gweithle	12
Trais yn y Gwaith.....	12
Osgoi Peryglon Gwasanaethau Tanddaearol a Gwifrau yn yr Awyr.....	12
Gweithio'r tu allan a Chanser y Croen.....	12
Crynu Llaw-braich	12
Legionella.....	12
Datganiadau Polisiâu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.....	13
Diwygio.....	14
Rhestr Wirio i Reolwyr.....	15

DATGANIAD POLISI IECHYD A DIOGELWCH CYFFREDINOL

Cyhoeddir y datganiad hwn yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, rheoliadau cysylltiedig, deddfwriaeth iechyd a diogelwch a 'Chodau Ymarfer Cymeradwy' perthnasol eraill.

1. NOD Y POLISI

Sicrhau bod gan staff Cyngor Rhondda Cynon Taf weithle diogel a llesol a derbyn cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai ei weithgareddau effeithio arnyn nhw.

2. RHAN A – DATGANIAD POLISI (DATGANIAD O FWRIAD)

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cydnabod ac yn derbyn ei rwymedigaethau cyfreithiol â'i ddyletswyddau moesol ac economaidd i sicrhau bod gan staff Cyngor Rhondda Cynon Taf a phobl eraill weithle diogel a llesol.

Mae hyrwyddo safonau iechyd, diogelwch a lles a pharhau i'w gwella yn amcan anhepgor i reolwyr a staff eraill ar bob lefel yn nhyb y Cyngor. Caiff ymdrechion a chydweithrediad pob aelod o staff, contractwr a defnyddiwr y gwasanaeth eu hystyried yn angenrheidiol i'w gwneud yn bosibl cynnal gwaith heb berygl a chyflawni'r gwasanaeth yn llwyddiannus.

Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni drwy lunio, gweithredu a datblygu polisi, a thrwy osod amcanion a safonau cyflawni. Bydd y Cyngor yn gweithredu'n briodol i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldebau yn Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, yn enwedig y ddyletswydd cynnal asesiadau risg. At ddibenion hyn, caiff asesiadau risg addas a digonol eu cyflawni yn unol â'r ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth benodol arall, gan sicrhau bod cofnodion clir a chywir yn cael eu cadw. Caiff asesiadau risg eu hadolygu yn rheolaidd ac ar ôl newidiadau.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i weithredu a chynnal mesurau a bydd gweithgareddau yn cael eu rheoli a'u cynnal er mwyn osgoi risgiau diangen neu annerbyniol. Bydd yn sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob aelod o staff a phobl eraill y gallai gwaith y Cyngor effeithio arnyn nhw, i'r graddau y mae hynny yn ymarferol yn rhesymol.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau lefelau digonol o gymhwysedd o ran iechyd a Diogelwch. Caiff staff ar bob lefel wybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant, goruchwyliaeth a systemau cyfathrebu i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i gynnwys staff yn y broses ac i ymgynghori â nhw, a bydd yn gwneud trefniadau er mwyn ymgynghori ag undebau llafur cydnabyddedig a chynrychiolwyr gweithwyr. Bydd yn hybu pwyllgorau diogelwch newydd pan fydd hynny'n briodol.

Bydd staff yn gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau eu diogelwch personol a diogelwch eraill cyn belled ag y bo modd. Bydd uwch staff rheoli yn sicrhau bod cyfrifoldebau yn cael eu dirprwyo o fewn y strwythur rheolaeth linell a bod dulliau ffurfiol o ymgynghori ynghylch iechyd a diogelwch ar waith.

Os bydd angen goruchwyliaeth feddygol ar aelodau o staff, gan gynnwys sgrinio gweithwyr newydd, caiff hon ei chynnig yn fewnol gan Uned Iechyd a Lles Galwedigaethol y Cyngor.

Caiff cydymffurfiaeth â rheoliadau iechyd a diogelwch ei monitro a'i hadolygu i sicrhau y caiff y safonau sydd wedi'u pennu eu cynnal.

Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i gyflawni ei gyfrifoldebau a bydd yn rhoi ystyriaeth yn arbennig i ddarparu a chynnal y canlynol:

- peiriannau, cyfarpar a systemau o waith sy'n bodloni'r safonau statudol, ac sy'n ddiogel;
- trefniadau diogel ar gyfer defnyddio, trin, storio a chludo nwyddau a sylweddau;
- gwybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth at ddibenion galluogi pob aelod o staff i osgoi peryglon ac i gyfrannu at sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gwaith;
- gweithle diogel a mynedfeydd/allanfeydd diogel;
- amgylchedd gweithio llesol;
- cyfleusterau lles digonol.

Bydd adnoddau digonol yn cael eu rhoi i sicrhau bod modd i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran iechyd a diogelwch.

Bydd staff rheoli ar bob lefel yn gyfrifol yn uniongyrchol am gyflawni amcanion y polisi a byddan nhw'n atebol i'r staff rheoli un lefel yn uwch ac yn gyfrifol am y staff un lefel yn is.

Caiff pob aelod o staff gopi o'r datganiad polisi. Caiff hwn ei adolygu yn rheolaidd; bydd cynnwys yn cael ei ychwanegu neu ei addasu pan fydd hynny'n briodol.

Llofnod:

Dyddiad: 23 Tachwedd 2017



**Chris Bradshaw
Prif Weithredwr**

3. RHAN B – Y SEFYDLIAD (CYFRIFOLDEBAU IECHYD A DIOGELWCH) PRIF WEITHREDWR

Y Prif Weithredwr sy'n bennaf gyfrifol am iechyd a diogelwch. Yn benodol, bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau:

- bod adnoddau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch;
- y caiff pob uwch reolwr wybod am ei gyfrifoldebau iechyd a diogelwch;
- y caiff iechyd a diogelwch eu hystyried cyn bwysiced â swyddogaethau rheolaethol eraill;
- y caiff camau gweithredu'r polisi eu pennu a'u hadolygu;
- y caiff dulliau rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch eu cynnal;
- bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol;
- bod iechyd a diogelwch yn cael ei gynnwys yn rhan o gynlluniau ac adroddiadau Cyfarwyddwyr Grŵp;
- y caiff gwybodaeth ei throsglwyddo yn effeithiol o fewn y Cyngor.

CYFARWYDDWYR CYFADRANNAU

Bydd Cyfarwyddwyr Cyfadrannau yn atebol i'r Prif Weithredwr a byddan nhw'n gyfrifol am iechyd a diogelwch y staff y maen nhw'n eu rheoli. Yn benodol, byddan nhw'n sicrhau:

- bod adnoddau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch;
- bod Cyfarwyddwyr/Cyfarwyddwyr Gwasanaeth yn gweithredu ac yn datblygu'r datganiadau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol mewn strategaethau meysydd gwasanaeth;
- y caiff iechyd a diogelwch ei gynnwys yn rhan o gynlluniau ac adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Prif Weithredwr;
- y caiff dulliau rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch eu cynnal;
- y caiff gwybodaeth ei throsglwyddo yn effeithiol o fewn y Grŵp;
- y caiff cyflawniad yr uwch reolwyr sy'n atebol iddyn nhw o ran gwaith iechyd a diogelwch ei fonitro a'i werthuso, a bod y staff hynny'n gwybod eu cyfrifoldebau;
- y caiff carfanau iechyd a diogelwch eu sefydlu yn y meysydd gwasanaeth pan fydd hynny'n briodol.

CYFARWYDDWYR / CYFARWYDDWYR GWASANAETH

Bydd Cyfarwyddwyr/Cyfarwyddwyr Gwasanaeth yn atebol i'r Cyfarwyddwr Grŵp a byddan nhw'n gyfrifol am iechyd a diogelwch y staff y maen nhw'n eu rheoli. Yn benodol, byddan nhw'n sicrhau:

- y caiff cyngor ei roi i'r Cyfarwyddwr Grŵp ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer iechyd a diogelwch;
- y caiff gwaith iechyd a diogelwch ei gydlynu'n effeithiol o fewn y maes gwasanaeth;
- y caiff dulliau rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch eu cynnal;
- bod cysylltiadau da ar waith at ddibenion trosglwyddo gwybodaeth am iechyd a diogelwch;
- y caiff trefniadau iechyd a diogelwch eu cynnwys mewn cynlluniau ac adroddiadau ar gyfer Cyfarwyddwr y Grŵp;
- y caiff Datganiadau Polisi Corfforaethol Iechyd a Diogelwch eu gweithredu a'u datblygu mewn strategaethau meysydd gwasanaeth pan fo hynny'n briodol;
- y caiff cyflawniad o ran iechyd a diogelwch yn eu meysydd gwasanaeth perthnasol ei fonitro.

PENAETHIAID GWASANAETHAU

Bydd penaethiaid gwasanaeth yn atebol i'r Cyfarwyddwr/i Gyfarwyddwr Gwasanaeth a byddan nhw'n gyfrifol am iechyd a diogelwch y staff y maen nhw'n eu rheoli. Yn benodol, byddan nhw'n sicrhau:

- eu bod yn cydlynu'r system adrodd ar ddigwyddiadau/damweiniau ac yn cynorthwyo i ymchwilio i ddamweiniau ac i'w hosgoi;
- eu bod yn cynghori rheolwyr llinell a phobl eraill ac yn cysylltu â nhw ynghylch iechyd a diogelwch ac ynghylch cynnal asesiadau risgiau i iechyd a diogelwch;
- eu bod yn cynorthwyo i baratoi data iechyd a diogelwch er mwyn ei gynnwys mewn cynlluniau ac adroddiadau;
- y caiff arolygiadau iechyd a diogelwch eu cynnal ac y caiff camau gweithredu priodol eu cymryd i feithrin arferion gweithio diogel;
- y caiff staff hyfforddiant iechyd a diogelwch digonol;
- y caiff gwybodaeth ei throsglwyddo'n effeithiol yn y maes gwasanaeth perthnasol;
- y caiff dulliau rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch eu cynnal;
- y caiff cyflawniad o ran iechyd a diogelwch ym maes gwasanaeth perthnasol ei fonitro.

RHEOLWYR LINELL/GORUCHWYLLWYR

Bydd pob rheolwr llinell/goruchwyliwr yn paratoi rhaglenni a fydd yn cynnwys amcanion ar gyfer gwella iechyd a diogelwch yn eu maes. Bydd hyn yn rhan arferol o'u swyddogaethau rheoli. Dylai'r rhaglenni gael eu paratoi gan ymgynghori â rheolwyr y lefel uwch; bydd y rhain felly'n cyfrannu at gynlluniau ac adroddiadau iechyd a Diogelwch y Grŵp.

Bydd rheolwyr llinell/goruchwyllwyr yn cynnal safonau uchel wrth drefnu lleoliadau gwaith a gweithgareddau. Byddan nhw'n arwain y broses o gydymffurfio â gofynion o ran asesiadau risg, cyfnodau sefydlu, archwiliadau, ymchwiliadau a hyfforddiant a byddan nhw'n cymryd rhan weithredol ynddi. Byddan nhw'n sicrhau bod cyngor a chymorth ar gael i staff. Bydd rheolwyr llinell/goruchwyllwyr yn sicrhau bod systemau ffurfiol ar waith ar gyfer adolygu asesiadau risg ac ar gyfer darpariaeth ddigonol, yn enwedig yn achos staff sy'n ifainc, yn agored i newid neu'n ddibrofiad.

Bydd pob rheolwr llinell a goruchwyliwr, neu ddirprwy reolwyr sy'n gweithredu ar eu rhan, yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn yr holl feysydd y maen nhw'n eu rheoli. Cyn belled â'i fod yn ymarferol yn rhesymol, byddan nhw:

- yn gyfrifol am weithredu systemau 'gweithio yn ddiogel' y Grŵp, a byddan nhw'n cyfrannu at eu datblygu;
- yn sefydlu cyfrifoldebau a pherthnasau sy'n hyrwyddo ac sy'n cynnal arferion iechyd a diogelwch cadarnhaol drwy ysbrydoli staff a'u cynnwys yn y broses o reoli risgiau;
- yn datblygu cynlluniau a phennu safonau cyflawniad yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau risg, gan anelu at ddileu a rheoli risgiau;
- yn sefydlu systemau ar gyfer monitro ac adolygu camau gweithredu cynlluniau iechyd a diogelwch, a systemau ar gyfer monitro ac adolygu cydymffurfiaeth â safonau a gweithdrefnau cyflawniad. Byddan nhw'n pennu amlder unrhyw gamau gweithredu;
- yn ymglyfarwyddo â pholisïau iechyd a diogelwch a chanllawiau cysylltiedig perthnasol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu trosglwyddo i'r staff y maen nhw'n eu rheoli;
- yn monitro ac yn gwerthuso cyflawniad o ran iechyd a diogelwch er mwyn dysgu cymaint â phosibl gan sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i wella ac i ddatblygu trefniadau iechyd a diogelwch ymhellach.

STAFF

Mae'n ofynnol i staff ymddwyn yn ddiogel ar bob adeg fel eu bod yn sicrhau eu diogelwch personol a diogelwch eraill yn y gweithle. Dyma rai o'u dyletswyddau penodol:

- peidio â chamddefnyddio unrhyw beth sydd wedi cael ei roi er budd iechyd, diogelwch neu les yn unol ag unrhyw ddarpariaeth statudol berthnasol, neu ei gamddefnyddio;

- rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau i'r rheolwr perthnasol;
- cynorthwyo i ymchwilio i ddigwyddiadau/damweiniau;
- mynd i gyrsiau hyfforddiant iechyd a diogelwch pan fydd hynny'n ofynnol;
- defnyddio'r offer a'r cyfarpar cywir i'r swydd;
- defnyddio cyfarpar diogelu sydd wedi cael eu rhoi;
- cydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol;
- rhoi gwybod i'r rheolwr llinell am unrhyw sefyllfa yn y gwaith a allai roi eu hiechyd a diogelwch personol, iechyd a diogelwch gweithwyr eraill neu iechyd a diogelwch unrhyw berson arall, mewn perygl uniongyrchol;
- peidio â chymryd risgiau diangen;
- awgrymu ffyrdd o ddileu peryglon;
- cydymffurfio â systemau diogel o weithio;
- peidio ag ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol/anniogel.

4. RHAN C – TREFNIADAU (SYSTEMAU A GWEITHDREFNAU)

Mae'r trefniadau yma yn ategu'r Datganiad Polisi ac Adrannau Sefydliadol. Dydyn nhw ddim yn holl gynhwysfawr a chaiff trefniadau ar gyfer swyddogaethau pendenol eu cyhoeddi gan y Gorfforaeth/y Cyfarwyddwr Grŵp.

CYNGOR A CHYMORTH IECHYD A DIOGELWCH

Bydd y Cyngor yn cyflogi pobl gymwys i roi cyngor ar iechyd a diogelwch a chymorth pan fydd hynny'n briodol.

CYNRYCHIOLWYR DIOGELWCH A PHWYLLGORAU DIOGELWCH

Mae'r Cyngor yn effro i'r rheoliadau mewn perthynas â Chynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch. Bydd yn cydweithredu'n llawn â'r Undebau llafur cydnabyddedig i roi'r rheoliadau yma, a'u Cod Ymarfer a Chanllawiau, ar waith. Bydd y Cyngor hefyd yn ymgynghori â staff nad ydyn nhw wedi'u cynrychioli gan Undeb Llafur pan fydd hynny'n briodol.

SYSTEMAU DIOGEL O WEITHIO

Caiff systemau diogel o weithio eu paratoi i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff y Cyngor a phobl eraill y gallai ei weithredoedd effeithio arnyn nhw, cyn belled â bod hynny'n ymarferol yn rhesymol. Caiff systemau diogel o weithio eu dogfennu a'u hadolygu yn sgil newid pan fydd hynny'n briodol. Pan fydd gwaith yn mynd rhagddo a allai beri risg sylweddol, er enghraifft gwaith mewn lleoliad cyfyngedig, gwaith ar gylchredau trydan byw neu waith ar ffyrdd sydd â thraffig cyflym, caiff ystyriaeth ei rhoi i system 'trwydded i weithio'.

ASESIAD RISG

Caiff asesiadau addas a digonol eu cynnal o bob math o weithgarwch yn y gweithle a chaiff camau gweithredu eu cymryd o ganlyniad iddyn nhw. Caiff canfyddiadau arwyddocaol yn ystod asesiadau risg eu cofnodi a'u dogfennu.

Yn ogystal â Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (RhIDG) sy'n berthnasol i bob risg, mae gofynion statudol am asesiadau o'r effeithiau o fathau penodol o beryglon. Er mwyn sicrhau bod y gofynion cyfreithiol penodol o ran asesu risg yn cael eu bodloni, y Rheoliadau RhIDG fydd y safon sylfaenol, a chaiff y safon ei addasu pan fydd angen gwneud hynny i gydymffurfio â rheoliadau asesu risg penodol eraill.

ARCHWILIADAU STATUDOL

Caiff ei nodi pan fydd angen archwiliad statudol ar beiriannau a chyfarpar ac unigolyn cymwys a fydd yn eu harchwilio. Caiff cofnodion llawn o archwiliadau eu cadw.

CYFARPAR DIOGELU PERSONOL (CDP)

Pan nad yw'n bosibl dileu peryglon i'r unigolyn mewn unrhyw ffordd ymarferol arall yn rhesymol, bydd staff yn cael CDP. Pan fydd CDP wedi cael ei roi, dylen nhw gael eu defnyddio'n gywir bob amser y mae'r aelod o staff mewn perygl oherwydd y risg berthnasol. Bydd staff yn cael hyfforddiant priodol pan fydd angen hwnnw arnyn nhw.

Dim ond mewn sefyllfaoedd lle nad oes ffordd arall o ddiogelu'r aelod o staff rhag y risg y caiff CDP ei roi. Caiff CDP ei ddefnyddio yn niffyg opsiwn arall. Pan fydd angen CDP i fodloni gofynion statudol, caiff ei roi am ddim.

Fydd dim rhaid i Siciaid sy'n gwisgo twrban wisgo cyfarpar diogelu'r pen pan fyddan nhw'n gweithio ar safleoedd adeiladu.

DIGWYDDIADAU/DAMWEINIAU

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am nodi digwyddiadau/damweiniau ar y ffurflen briodol, boed yn fawr neu'n fach.

(i) Ymchwilio i Ddigwyddiad/Damwain:

Bydd y Rheolwr Llinell perthnasol yn sicrhau y caiff ymchwiliad i bob digwyddiad/damwain ei gynnal cyn gynted â phosibl. Yn rhan o hwn caiff achosion, pobl berthnasol, y lleoliad, y rhesymau y digwyddodd a dulliau osgoi eu cofnodi. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen ymchwilio'n fanwl.

(ii) Rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

Bydd gweithdrefnau Cofnodi yn cydymffurfio â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Yn ystod oriau gwaith arferol, cyfrifoldeb Carfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor yw cofnodi digwyddiadau. Y tu allan i oriau gwaith arferol, dros y penwythnos neu Ŵyl y Banc er enghraifft, cyfrifoldeb y goruchwyliwr neu'r rheolwr perthnasol yw hyn.

RHEOLI SYLWEDDAU PERYGLUS I IECHYD (RSPI)

Bydd trefniadau o ran defnyddio cemegion neu sylweddau peryglus yn cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Caiff gwybodaeth ei chasglu am bob cynnyrch a gaiff ei ddefnyddio, caiff asesiadau RSPI eu cynnal a chaiff gwybodaeth ei rhoi i staff sy'n berthnasol i'w hiechyd a diogelwch wrth ddefnyddio'r cynnyrch.

CYFARPAR

Bydd rheolwyr yn sicrhau bod eitemau a deunyddiau sydd ar gael i'w defnyddio yn y gwaith yn ddiogel pan fydd y defnyddiwr yn dilyn cyfarwyddiadau'r cyflenwr. Rhaid cael gwybodaeth gan y cyflenwr a throsglwyddo'r wybodaeth honno yn briodol.

(i) Peiriannau a Chyfarpar:

Bydd peiriannau a chyfarpar yn addas at eu dibenion. Byddan nhw'n cael eu harchwilio a'u cynnal i'r safonau sydd eu hangen i osgoi diffygion a allai arwain at anafiadau personol a salwch neu at ddifrod sylweddol i eiddo.

(ii) Hurio Peiriannau a Chyfarpar Symudol:

Pan fydd rheolwyr yn hurio peiriannau a chyfarpar, byddan nhw'n sicrhau eu bod yn addas a bod gweithwyr yn gymwys/eu bod wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio. Caiff peiriannau a chyfarpar eu cynnal a'u gwirio cyn iddyn nhw gael eu defnyddio.

CADW DEUNYDDIAU

Cyn belled â bod hynny'n ymarferol yn rhesymol, caiff deunyddiau eu rhoi i gadw yn briodol er mwyn eu cynnal mewn ffordd ddiogel. Drwy hynny, caiff ei gwneud yn bosibl eu rhoi ar waith yn unol â gofynion statudol.

GWAITH MAES PEIRIANNEG SIFIL A MAES ADEILADU

Ymgymerir â gwaith maes peirianeg sifil a maes adeiladu mewn ffordd gydnaws â deddfwriaeth berthnasol, er enghraifft y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) (ADRh). Bydd y Cyngor yn gweithredu cyfrifoldebau cleientiaid, dylunwyr a chontractwyr ac ati ar bob prosiect perthnasol.

GWYBODAETH, CYFARWYDDIADAU, HYFFORDDIANT A GORUCHWYLIAETH

Bydd rheolwyr yn rhoi gwybod i weithwyr am drefniadau trosglwyddo gwybodaeth am faterion iechyd a diogelwch. Bydd hynny'n cynnwys rhoi gwybod am wrthrychau a sylweddau i'w defnyddio yn y gwaith.

Rhaid dadansoddi anghenion o ran hyfforddi a chynllunio rhaglenni hyfforddi.

Rhaid i weithwyr gael gwybod am weithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod i'r rheolwr llinell perthnasol am faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Caiff gweithwyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i ymgymryd â'u dyletswyddau, neu bydd modd iddyn nhw weld yr wybodaeth honno. Bydd yr wybodaeth yn ymdrin yn gynhwysfawr â'u hiechyd a diogelwch personol ac ag iechyd a diogelwch pobl eraill.

ASBESTOS

Caiff camau rheoli asbestos yn sefydliadau'r Cyngor flaenoriaeth uchel. Caiff rhaglen ei datblygu at ddiben arolygu pob sefydliad er mwyn gweithredu'n briodol. Caiff cofrestr asbestos ei chynnal.

GWEITHIO MEWN LLEOLIADAU CYFYNGEDIG

Mae gweithio mewn lleoliad cyfyngedig yn beryglus iawn. Mewn rhai achosion, cronfeydd o nwyon, anwedd neu hylifau yw'r perygl pennaf. Pan fydd yn ofynnol gweithio mewn lleoliadau cyfyngedig, caiff ei nodi a chaiff systemau diogel o weithio eu trefnu'n ffurfiol. Fydd dim rhaid gweithio mewn lleoliad cyfyngedig heb ddilyn system ddiogel o weithio (e.e. system 'Trwydded i Weithio').

IECHYD GALWEDIGAETHOL

Bydd y Cyngor yn hybu ac yn hyrwyddo lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol gweithwyr tra byddan nhw yn y gwaith. Caiff pob proses a gweithdrefn a allai effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwaith ac iechyd eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff polisiau a gweithdrefnau eu datblygu a'u rhoi ar waith.

Caiff archwiliadau meddygol a mesurau rhagofalus eu cynnig i weithwyr, megis eu himiwneiddio, pan fyddan nhw'n dod i gysylltiad â pheryglon penodol yn rhinwedd eu dyletswyddau.

GWEITHIO AR UCHDER

Caiff trefniadau eu gwneud ar gyfer diogelwch gweithwyr pan fydd yn ofynnol iddyn nhw weithio ar safleoedd aruchel. Mae hyn yn cynnwys trefniadau o ran y ffordd y byddan nhw'n cyrraedd ac yn gadael y gwaith, a'u diogelu rhag cwmpo. Caiff y Rheoliadau Gweithio ar Uchder, ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, eu dilyn.

GWEITHIO AR BRIFFYRDD NEU AR EU PWYS

Bydd gwaith ar briffyrdd neu ar eu pwys yn cael ei gynnal yn unol â'r safonau a nodir ym Mhennod 8 o Ddeddf Priffyrdd 1980, ac ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, ym mhob achos.

RHEOLI SŴN

Cyn belled â bod hynny'n ymarferol yn rhesymol, cedwir effaith sŵn ar weithwyr mor isel â phosibl. Caiff lefelau'r sŵn eu hasesu a phan fydd y lefelau yn uwch na'r gwerth gweithredu sŵn is, caiff trefniadau ar gyfer diogelu gweithwyr a phobl eraill eu gwneud yn unol â'r Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Caiff cyfarpar/peiriannau eu hasesu, a phan fydd angen, caiff lefelau sŵn eu lleihau cyn belled â bod hynny'n ymarferol yn rhesymol.

CYMORTH CYNTAF

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Cymorth Cyntaf yn y Gwaith) drwy sicrhau bod digon o swyddogion cymorth cyntaf/unigolion sydd wedi'u penodi. Caiff enwau swyddogion cymorth cyntaf/unigolion sydd wedi'u penodi eu harddangos a'u lledaenu. Caiff pob swyddog cymorth cyntaf/unigolyn sydd wedi'i benodi ei hyfforddi i'r safon briodol. Dim ond ar ôl cael y dystysgrif briodol y caiff ymarfer cymorth cyntaf.

DIOGELU PEIRIANNAU

Caiff peiriannau eu gwneud yn ddiogel yn y ffordd gywir tra caiff eu defnyddio yn unol â Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith a Safonau Diogelu Peiriannau Prydain. Bydd gweithwyr yn sicrhau y caiff offer diogelu eu defnyddio yn gywir.

CODI A CHARIO

Caiff asesiadau o waith codi a chario eu cynnal er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario. Caiff mesurau eu cyflwyno er mwyn lleihau'r risg anafu.

MAMAU NEWYDD A MENYWOD SY'N FEICHIOG

Caiff trefniadau eu gwneud er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles mamau newydd a menywod sy'n feichiog. Caiff asesiadau risg penodol eu cynnal a chaiff pob perygl ei nodi a'i reoli mewn modd addas.

TRWYDDEDAU I WEITHIO

Bydd raid i rai isadrannau gynnal systemau a gweithdrefnau 'trwydded i weithio' (e.e. rhai sy'n cynnwys gwaith mewn lleoliadau cyfyngedig, gwaith â deunyddiau twym neu â thrydan foltedd uchel ac ati). Caiff y rhain eu dilyn yn gydwbodol a bydd yr achosion pan gaiff eu defnyddio eu cofnodi.

RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL

Caiff y safonau amgylcheddol priodol eu gweithredu a'u monitro. Ymhlith y rhain y mae safonau cysylltiedig â gwres, golau ac aer, a chaiff eu gweithredu yn unol â'r Rheoliadau Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles).

TÂN

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a deddfwriaeth ar ôl hynny sy'n ymdrin â diogelwch tân mewn adeiladau, gweithdrefnau gwagio adeiladau ac ati.

CYFARPAR SGRIN ARDDANGOS (CSA)

Bydd trefniadau er defnydd cyfarpar sgrin arddangos yn cydymffurfio â chanllawiau'r AGID mewn perthynas â'r Rheoliadau Cyfarpar Sgrin Arddangos.

DIOGELWCH GYDA THRYDAN

Mae'r Cyngor yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â chyfarpar trydanol. Mae'r rhain yn cynnwys llosgi, niwed oherwydd trydan, tân, ffrwydradau a lledgylchu.

Caiff cyfarpar trydanol eu harchwilio, eu profi a'u cynnal yn rheolaidd a chaiff cofnodion a stocrestrau eu cadw. Pan gaiff ei amau neu ei ddarganfod nad yw cyfarpar yn ddiogel, chaiff y cyfarpar mo eu defnyddio hyd nes eu bod yn ddiogel. Bydd y Cyngor yn trefnu profion rheolaidd o fewnosodiadau trydanol ar safleoedd y Cyngor. Mewn rhai amgylchiadau, caiff dyfeisiau cerrynt gweddilliol (DCG) eu defnyddio yn fesur rheoli ychwanegol. Yn yr un modd, caiff pob DCG ei archwilio yn rheolaidd.

CONTRACTWYR AC IS-GONTRACTWYR

Caiff trefniadau ar gyfer contractwyr sy'n gweithio ar safleoedd a gwasanaethau'r Cyngor eu gwneud er mwyn sicrhau nad yw gweithwyr, safleoedd nac asedau mewn perygl oherwydd gweithredoedd contractwyr. Yn yr un modd, chaiff contractwyr mo eu rhoi mewn perygl oherwydd gweithredoedd y Cyngor.

STRAEN YN Y GWEITHLE

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod straen yn y gweithle yn berygl a all beri iechyd gwael, a bod ganddo ddyletswydd i'w reoli yn effeithiol. Bydd y Cyngor yn rhesymol ofalus er mwyn sicrhau nad yw iechyd yn cael ei roi mewn perygl oherwydd straen sylweddol a pharhaus o ganlyniad i'r ffordd y caiff gwaith ei drefnu, i'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu, neu i gyfrifoldebau gweithwyr o ddydd i ddydd.

TRAIS YN Y GWAITH

Bydd y Cyngor yn sicrhau systemau priodol o weithio sy'n rheoli'r risgiau o drais i weithwyr yn effeithiol. Nid trais corfforol yn unig sy'n berthnasol yma. Mae hefyd yn cynnwys ymddygiad sydd â'r un potensial i beri gofid i weithwyr ac i'w bygwth, megis ymddygiad ymosodol ar lafar a gwahaniaethu.

OSGOI PERYGLON GWASANAETHAU TANDDAEAROL A GWIFRAU YN YR AWYR

Caiff gweithwyr gyfarwyddiadau digonol ar ddefnyddio dyfeisiau lleoli gwifrau, arferion cloddio diogel, gweithdrefnau o ran cysylltu â sefydliadau perthnasol a gweithdrefnau o ran gweithio o amgylch gwifrau neu ar bwys gwifrau yn yr awyr.

GWEITHIO'R TU ALLAN A CHANSER Y CROEN

Mae'r Cyngor yn cydnabod y risg i weithwyr sy'n gweithio y tu allan oherwydd gormod o ymbelydredd golau uwchfioled, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Bydd yn ofynnol i reolwyr asesu'r risgiau a gweithredu mesurau rheoli priodol. Gallai'r rheini gynnwys ei gwneud yn ofynnol i weithwyr orchuddio eu croen, neu i ddiogelu eu croen rhag gormod o haul yn y gwaith.

CRYNU LLAW-BRAICH

Caiff pob peiriant/offeryn sy'n debygol o beri lefelau uchel o grynu ei nodi a chaiff y risgiau eu hasesu. Mae'n bosibl y caiff mesurau rheoli megis monitro crynu, cynnal a chadw cyfarpar yn rheolaidd, rhoi menig, prynu cyfarpar sy'n crynu lai, cylchdroi gweithwyr ac ati eu gweithredu. Dylai gweithwyr sy'n defnyddio peiriannau/cyfarpar sy'n crynu gael hyfforddiant. Dylai gweithwyr gael gwybod am y risgiau iddyn nhw ac am y mesurau sydd eu hangen i'w rheoli. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i weithwyr fynd i archwiliadau meddygol os ydyn nhw'n defnyddio peiriannau sy'n crynu ac sydd â risg uwch.

LEGIONELLA

Gall bacteria Legionella fod yn bresennol mewn systemau dŵr ac achosi salwch tebyg i niwmonia, gan gynnwys yr un mwyaf peryglus all fod yn farwol, sef clefyd y llengfilwyr.

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau yn unol â Deddf Iechyd a

Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a deddfwriaeth ar ôl hynny i reoli risg legionella mewn systemau dŵr yn safleoedd y mae'r Cyngor yn eu rheoli.

DATGANIADAU POLISIÄU IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL

Mae Datganiadau Polisiäau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi cael eu llunio. Cyfrifoldeb pob Cyfarwyddwr Grŵp yw rhoi darpariaethau pob polisi ar waith a pharatoi strategaeth maes gwasanaeth.

Dyma restr o'r polisiäau sydd wedi cael eu llunio hyd yn hyn. Caiff ei diwygio yn sgil newidiadau. Caiff polisiäau eraill eu llunio pan fydd hynny'n briodol.

Iechyd a Diogelwch 1 Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol

Polisiäau Penodol:

Iechyd a Diogelwch 2	Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol ('PPE')
Iechyd a Diogelwch 3	Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ('COSHH')
Iechyd a Diogelwch 4	Codi a Chario
Iechyd a Diogelwch 5	Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
Iechyd a Diogelwch 6	Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
Iechyd a Diogelwch 7	Rheoli Sŵn yn y Gwaith
Iechyd a Diogelwch 8	Menywod Beichiog yn y Gwaith
Iechyd a Diogelwch 9	Cymorth Cyntaf yn y Gwaith
Iechyd a Diogelwch 10	Trydan yn y Gwaith
Iechyd a Diogelwch 11	Cyfarpar Sgrîn Arddangos ('DSE')
	[Cynllun Iechyd a Diogelwch 11A (Profion Llygaid a Golwg a Dyfeisiau Cywiro Arbennig)]
Iechyd a Diogelwch 12	Iechyd, Diogelwch, a Lles yn y Gweithle
Iechyd a Diogelwch 13	Trais yn y Gwaith
Iechyd a Diogelwch 14	Haint a Heintiad Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol a Syndrom Diffyg Imiwnedd Caffaeledig
Iechyd a Diogelwch 15	Ymwelwyr
Iechyd a Diogelwch 16	Gweithgareddau Antur i Bobl Ifainc

lechyd a Diogelwch 17	Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau
lechyd a Diogelwch 18	Ysmygu yn y Gweithle
lechyd a Diogelwch 19	Straen yn y Gweithle
lechyd a Diogelwch 20	Tân
lechyd a Diogelwch 21	Cyfarpar Gwaith
lechyd a Diogelwch 22	Gweithio'n Unigol
lechyd a Diogelwch 23	Rheoli Contractwyr
lechyd a Diogelwch 24	Rheoli Asbestos
lechyd a Diogelwch 25	Rheoli Heintiau
lechyd a Diogelwch 26	Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich ('HAVS')
lechyd a Diogelwch 27	Rheoli Legionella

DIWYGIO

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ac i ddiwygio pob dogfen er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn polisi, yn y sefydliad, mewn trefniadau neu mewn safonau a deddfwriaeth. Caiff gweithwyr wybodaeth am y newidiadau hynny.

RHESTR WIRIO I REOLWYR

	✓ Fel y bo'n briodol		
	Dd/B	Ydy	Nac ydy
<ul style="list-style-type: none">Yn unol â gofynion Adran 2(3) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, mae'r copi diweddaraf o'r Polisi wedi cael ei ddwyn i sylw pob gweithiwr. Noder: Does dim rhaid i bob gweithiwr gael copi o'r Polisi. Byddai'n ddigonol pe bai'r Polisi yn cael ei osod mewn lleoliad hawdd ei weld ar hysbysfyrdau, a phe bai gweithwyr yn cael gwybod amdano.			
	Dd/B	Ydw	Nac ydw
<ul style="list-style-type: none">Rydych chi wedi sicrhau bod gweithwyr yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau yn ôl y Polisi.			

Cwblhawyd gan: _____
(Llofnod)

Cadarnhawyd gan: _____
(Llofnod)

Enw: _____
(Llythrennau bras)

Enw: _____
(Llythrennau bras)

Swydd: _____

Swydd: _____

Dyddiad: _____

Dyddiad: _____